Cyngor y Gweithlu Addysg

Adroddiad Blynyddol Priodoldeb i Ymarfer

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

Cymraeg

This document is also available in English.

Cyngor y Gweithlu Addysg

Education Workforce Council

Cynnwys

1. Ynghylch CGA 3

2. Y Gofrestr Ymarferwyr Addysg 4

3. Y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol..... 4

4. Ynghylch Priodoldeb i Ymarfer..... 5

5. Atgyfeirio achosion 5

6. Beth sy'n digwydd pan dderbynnir achos? 6

7. Crynodeb o waith achos Priodoldeb i Ymarfer 7

8. Asesu addasrwydd i gofrestru..... 14

9. Tua'r dyfodol yn 2023-24..... 18

1. Ynghylch CGA

Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yw'r rheoleiddiwr proffesiynol, annibynnol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru.

Fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, ac mae'n ofyniad cyfreithiol i ymarferwyr ar draws saith grŵp gwahanol yn y gweithlu addysg, o'r cyfnod sylfaen i addysg bellach, gwaith ieuenctid, a dysgu seiliedig ar waith, gofrestru gyda CGA. Ein Cofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru yw'r gofrestr gyhoeddus fwyaf o unrhyw broffesiwn yng Nghymru, a'r gofrestr fwyaf pellgyrhaeddol o weithwyr addysg proffesiynol yn y byd, gyda dros 88,000 o ymarferwyr wedi'u cofrestru.

Ein hamcanion

Ein swyddogaethau



2. Y Gofrestr Ymarferwyr Addysg

Ar 31 Mawrth 2023, roedd **88,748** o ymarferwyr addysg unigol wedi'u cofrestru gyda CGA. Fodd bynnag, mae rhai cofrestreion wedi'u cofrestru mewn mwy nag un categori. Mae'r tabl isod yn dangos y nifer a oedd yn gymwys i weithio ym mhob categori ar 31 Mawrth 2023.



3. Y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol

Ym mis Medi 2022, yn dilyn cyfnod o ymgynghori ac ymgysylltu, cyhoeddom God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol diwygiedig i gofrestreion. Mae pob cofrestrai newydd yn cael copi o'r Cod wrth gofrestru (18,756 yn 2022-23), mae pob cyflogwr yn cael copïau o'r Cod bob blwyddyn i'w lledaenu i'w cyflogeion cofrestredig ac, yn ogystal, mae'r Cod wedi cael ei lawrlwytho dros 6,000 o weithiau yn ystod y flwyddyn.



Mae ein cofrestreion yn ymrwymo i gynnal **pum egwyddor allweddol** Cyfrifoldeb Personol a Phroffesiynol, Unplygrwydd Proffesiynol, Cydweithio, Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol a Dysgu Proffesiynol.

Bwriedir i'r Cod lywio barn a phenderfyniadau cofrestreion. Hefyd, mae'n rhoi gwybod i ddysgwyr, rhieni, gwarcheidwaid, cyflogwyr a'r cyhoedd am y safonau y gallant eu disgwyl gan gofrestrai.

Gallai methiant i gydymffurfio â'r Cod fwrw amheuaeth ynghylch cofrestriad ymarferydd.

Rydym yn cyflwyno sesiynau hyfforddi a chyflwyniadau rheolaidd sy'n canolbwyntio ar y Cod, y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, a moeseg a chyfrifoldebau proffesiynol. Rydym yn cynnig cyfres o ganllawiau arfer da, a luniwyd i ategu'r Cod a helpu i arwain barn a phenderfyniadau proffesiynol cofrestreion o ddydd i ddydd. Cyhoeddom ddau ganllaw newydd eleni, un ar gyfer arweinwyr ym maes addysg ac un i gefnogi iechyd meddwl a lles cofrestreion (ar y cyd â Education Support).

4. Ynghylch Priodoldeb i Ymarfer

Mae gennym ddyletswydd statudol i ymchwilio i achosion yn erbyn cofrestreion, a chlywed yr achosion hynny, lle honnir ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu os yw'r cofrestrai wedi'i gael yn euog (ar unrhyw adeg) o drosedd berthnasol.

Mae ein Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu 2021 yn amlinellu'r gweithdrefnau a ddilynwn wrth ymgymryd â'n gwaith yn y maes hwn gan gynnwys ein pwerau i osod Gorchmynion Atal Dros Dro Interim mewn amgylchiadau penodol.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gennym 53 o aelodau panel annibynnol sy'n ymgymryd â'r holl waith addasrwydd i ymarfer. Mae'r grŵp hwn o aelodau panel yn cynnwys ymarferwyr cofrestredig o bob un o'r saith grŵp cofrestreion, aelodau lleyg ac ymarferwyr sydd wedi ymddeol. Nid yw'r un aelod o'r Cyngor yn ymwneud ag achosion priodoldeb i ymarfer, ac nid ydynt yn aelodau o'r paneli.

5. Referral of cases

Mae CGA yn derbyn atgyfeiriadau mewn un o'r ffyrdd canlynol:

Atgyfeiriadau gan yr Heddlu	Gall heddluoedd wneud atgyfeiriadau'n uniongyrchol i CGA yn unol â datgeliad yr heddlu o dan gyfraith gyffredin (CLPD)
Cyflogwyr/Asiantau	Mae dyletswydd statudol ar gyflogwyr ac asiantaethau cyflenwi preifat i atgyfeirio cofrestrai i CGA: • os caiff cofrestrai ei ddiswyddo neu os yw'n gadael cyflogaeth cyn diswyddiad posibl (e.e. ymddiswyddo neu gytundeb setlo) (Cyflogwyr). • os yw asiantaeth yn rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau cofrestrai neu os gallai fod wedi gwneud hynny pe na byddai'r cofrestrai wedi rhoi'r gorau i weithio iddi eisoes. Yn y ddau achos, dyma'r seiliau ar gyfer atgyfeirio: • camymddygiad • anghymhwysedd proffesiynol • euogfarn o drosedd berthnasol
Cwynion	Gall unrhyw unigolyn neu sefydliad wneud cwyn am ymddygiad neu anghymhwysedd honedig cofrestrai.
DBS	Mae CGA yn derbyn atgyfeiriadau'n uniongyrchol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).
CGA	Gall CGA hunanatgyfeirio cofrestreion os daw'n ymwybodol o wybodaeth am gofrestrai ac mae o'r farn bod gwneud hynny er budd y cyhoedd.

6. Beth sy'n digwydd pan ddaw achos i law?

Mae'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau sy'n dod i law yn cael eu hystyried yn gyntaf gan Bwyllgor Ymchwilio a chynhelir y cyfarfodydd yn breifat.

Mae'r Pwyllgor Ymchwilio yn cynnwys isafswm o dri aelod panel a chaiff ei gefnogi gan ymgynghorydd cyfreithiol annibynnol nad yw'n cymryd rhan yn y broses benderfynu, ond sy'n sicrhau bod yr ymchwiliad yn deg.

Rôl y Pwyllgor yw penderfynu a yw'n debygol ai peidio y bydd ffeithiau'r achos yn cael eu profi, ac yna a allai'r canfyddiadau hynny fod yn gyfystyr ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu euogfarn o drosedd berthnasol, os bydd yr achos yn symud ymlaen i wrandawiad cyhoeddus.

Cynhelir gwrandawiad cyhoeddus pan fydd Pwyllgor Ymchwilio wedi penderfynu bod gan gofrestrai 'achos i'w ateb'. Caiff y cofrestrai ei wahodd i fynychu a/neu gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad.

Mae Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer yn cynnwys isafswm o dri aelod panel a chaiff y Pwyllgor ei gefnogi gan ymgynghorydd cyfreithiol annibynnol. Ni fydd gan y Pwyllgor sy'n eistedd mewn gwrandawiad unrhyw wybodaeth flaenorol am yr achos ger ei fron.

Mae deilliannau posibl gwrandawiadau fel a ganlyn:

- Ni profwyd y ffeithiau
- Profwyd y ffeithiau ond nid ymddygiad proffesiynol annerbyniol/ anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu drosedd berthnasol
- Profwyd y ffeithiau - dim gorchymyn
- Cerydd - caiff ei gofnodi am ddwy flynedd ar y Gofrestr
- Gorchymyn Cofrestru Amodol - caiff ei gofnodi ar y Gofrestr am gyfnod a bennir gan y Pwyllgor. Os na phennir cyfnod, bydd y Gorchymyn hwn yn berthnasol yn barhaol
- Gorchymyn Atal Dros Dro - dileu'r unigolyn o'r Gofrestr am y cyfnod a bennir gan y Pwyllgor (heb fod yn fwy na 2 flynedd). Gellir cymhwyso amodau i Orchymyn Atal Dros Dro
- Gorchymyn Gwahardd - dileu'r unigolyn o'r Gofrestr. Ni elir gwneud cais am ailderbyn i'r Gofrestr hyd nes bod o leiaf 2 flynedd wedi mynd heibio

Wedi gwrando ar achos, os bydd Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer yn gosod gorchymyn disgyblu (heblaw am orchymyn atal dros dro interim) ar gofrestriad ymarferydd addysg, bydd rhybudd i'r perwyl hwnnw'n ymddangos ar wefan CGA. Bydd y rhybudd yn parhau am gyfnod o 6 mis o'r diwrnod y caiff ei gyhoeddi.

Caiff unrhyw orchymyn disgyblu a osodir ei gofnodi ar gofnod yr ymarferydd ar Gofrestr CGA a bydd ar gael yn gyhoeddus am gyfnod y gorchymyn.

7. Crynodeb o waith achos Priodoldeb i Ymarfer

Eleni, gwnaethom derfynu 71 o achosion priodoldeb i ymarfer. Roedd hyn yn cynnwys 46 o wrandawiadau priodoldeb i ymarfer, yr oedd 44 ohonynt yn wrandawiadau rhithwir a 2 wyneb yn wyneb.

Mae gennym bwerau statudol i osod gorchmynion atal dros dro interim, sy'n dileu cofrestrai o'r Gofrestr dros dro fel '**mesur brys**' tra'n disgwyl ymchwiliad. Gosodom dri gorchymyn atal dros dro interim yn ystod y flwyddyn adrodd.

Cynhelir mwyafrif y gwrandawiadau'n rhithwir. Fodd bynnag, yn unol ag ymagwedd llawer o reoleiddwyr eraill, gwahoddir cofrestreion i gadarnhau p'un a ydynt yn dymuno i'w hachos gael ei glywed yn rhithwir neu wyneb yn wyneb. Er mwyn i wrandawiad wyneb yn wyneb gael ei gadarnhau, mae'n rhaid i'r cofrestrai ymrwymo i fynychu'r gwrandawiad neu gael ei gynrychioli'n bersonol ynddo.

Nodiadau ar y data
Gall ymarferydd gael ei gofrestru mewn mwy nag un categori ar unrhyw adeg. At ddiben yr adroddiad hwn, pan fydd unigolyn wedi'i gofrestru mewn mwy nag un categori, mae wedi'i gynnwys o dan 'Sawl categori cofrestru'.

7.1 Nifer yr achosion Priodoldeb i Ymarfer a derfynwyd yn ôl grŵp cofrestreion a blwyddyn

Grŵp cofrestru	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Athrawon ysgol (AY)	22	27	24	25	21
Athrawon addysg bellach (AAB)	9	17	6	11	9
Gweithwyr cymorth dysgu AB (GCDAB)	4	7	2	3	0
Gweithwyr cymorth dysgu ysgol (GCDY)	16	21	19	21	21
Ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith (DSW)	4	10	5	9	5
Gweithwyr cymorth ieuenctid (GCI)	0	1	1	1	0
Gweithwyr ieuenctid (GI)	1	0	0	0	0
Sawl categori cofrestru	9	10	9	16	15
Cyfanswm	**65**	**93**	**66**	**86**	**71**

O'r **71** o achosion y cyfeirir atynt uchod:

- ystyriwyd **46** o achosion mewn gwrandawiadau priodoldeb i ymarfer (heb gynnwys gwrandawiadau Gorchymyn Atal Dros Dro Interim), gan gynnwys 1 cais a oedd yn ymwneud â chydymffurfio ag amodau
- ystyriwyd bod **11** o achosion yn rhai 'dim achos i'w ateb' gan Bwyllgor Ymchwilio
- nid oedd **9** achos yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad ac fe'u caewyd fel rhai 'dim camau pellach'
- Roedd **5** achos yn ymwneud â chofrestreion a waharddwyd gan y DBS cyn i CGA wneud penderfyniad terfynol

7.2 Ffynhonnell atgyfeirio – achosion a gwblhawyd yn 2022-23



*Mae 'Eraill' yn cynnwys cwynion neu atgyfeiriadau gan y DBS a rheoleiddwyr eraill

7.3 Deilliannau achosion Priodoldeb i Ymarfer yn ôl blwyddyn

Canlyniad	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Terfynwyd heb i orchymyn gael ei osod	19 (29%)	38 (41%)	28 (42%)	27 (31%)	25 (35%)
Cerydd	13	18	9	20	19
Gorchymyn Cofrestru Amodol	4	6	1	1	0
Gorchymyn atal(dim amodau)	5	5	5	4	2
Gorchymyn atal (gydag amodau)	4	3	4	2	2
Gorchymyn gwahardd	15	22	15	23	17
Cais i amrywio/torri amodau	2	1	1	0	1
Cais i fod yn gymwys yn dilyn Gorchymyn Gwahardd	1	0	0	3	0
Gwaharddwyd gan y DBS cyn i CGA derfynu'r achos	1	0	3	6	5
Caewyd yr achos – bu farw'r cofrestrai	2	0	0	0	0
Cyfanswm	**66**	**93**	**66**	**86**	**71**

Noder - o'r **25** o achosion a derfynwyd heb orchymyn:

- cafodd **5** eu terfynu ar y cam gwrandawiad
- ystyriwyd bod **12** yn rhai 'dim achos i'w ateb' gan Bwyllgor Ymchwilio
- roedd **8** yn ymwneud â mân euogfarnau

Gorchmynion Atal Dros Dro Interim (GADDI) 2022-23

	AY	AAB	GCDAB	GCDY	DSW	GI	GCW	Sawl categori	Cyfanswm
GADDI wedi ei osod	1	0	0	1	0	0	0	1	**3**

7.4 Mathau o ymddygiad – achosion a derfynwyd yn 2022-23

Math o ymddygiad	Nifer yr achosion
Euogfarn(au) yn unig	10
Euogfarnau ac ymddygiad	9
Methiant i gydymffurfio â gweithdrefnau	7
Ymddygiad amhroffesiynol/amhriodol tuag at ddysgwyr	7
Cyfuniad o faterion camymddygiad	6
Methiant i fodloni safonau ymarferwyr	6
Camarfer mewn arholiadau/asesiadau	5
Honiadau, datganiadau ffug a/neu ddogfennau wedi'u ffugio	5
Lefel amhriodol o gosb/grym/ataliaeth/cyswllt corfforol	5
Cysylltiad amhriodol â dysgwyr drwy'r cyfryngau cymdeithasol	3
Perthynas amhriodol â dysgwyr	2
Iaith sarhaus	2
Cyfathrebu amhriodol ynglŷn â chyflogwr – torri ymddiriedaeth	1
Dwyn oddi wrth gyflogwr	1
Bod o dan ddylanwad alcohol yn y gwaith	1
Cyfanswm	**70**

Noder: Yn 2022-23, terfynwyd **1** achos hefyd nad yw wedi'i gynnwys yn y tabl hwn, sef penderfynu p'un a gydymffurfiwyd ag amodau Gorchymyn ai peidio.

7.5 Completion time for concluded cases in 2022-23

Mae nifer o ffactorau sy'n effeithio ar yr amserlenni ar gyfer terfynu achosion, gan gynnwys:

- achosion gerbron tribiwnlys cyflogaeth (efallai bydd CGA yn gohirio ystyried yr achos hyd nes bod y tribiwnlys yn dod i ben);
- mae iechyd y cofrestrai'n wael ac mae tystiolaeth feddygol yn cadarnhau nad yw'n ddigon iach i gymryd rhan, ond mae'n dymuno gwneud hynny;
- materion a godir gan y cofrestrai neu ei gynrychiolydd wrth baratoi ei achos;
- canfyddir pryderon pellach wrth baratoi ar gyfer y gwrandawiad y mae angen eu cyfeirio'n ôl at Bwyllgor Ymchwilio yn y lle cyntaf.

Mae CGA yn monitro ei amserlenni ei hun ar gyfer terfynu achosion o gymharu â Rheoleiddwyr/Cyrff Proffesiynol eraill ac mae'n parhau i arwain yn y maes hwn.

Amser cwblhau	Nifer yr achosion	%
Terfynwyd yr achos o fewn 8 mis (35 wythnos)	59	83.1%
Achos heb ei derfynu o fewn 8 mis (35 wythnos)		
Codwyd materion gan y cofrestrai/cyflogwr	6	8.5%
Oedi arall gan drydydd parti e.e. yr Heddlu	3	4.2%
Codwyd materion gan CGA	2	2.8%
Codwyd pryderon ychwanegol yn ystod y cam ymchwilio, gorfod cyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Ymchwilio	1	1.4%
Cyfanswm nifer yr achosion a derfynwyd yn 2022-23	**71**	**100%**

O'r **59** o achosion a derfynwyd o fewn 8 mis, yr amser cyfartalog a gymerwyd o dderbyn i derfynu oedd 29.4 wythnos (6.7 mis).

7.6 Demograffeg yr achosion disgyblu a derfynwyd yn 2022-23

Noder:

- ystyr 'Achosion PiY' yw Achosion Priodoldeb i Ymarfer
- daw'r 'Gweithlu Cofrestredig' o'r Gofrestr Ymarferwyr Addysg ar 31 Mawrth 2023

Rhywedd



Oedran



Hunaniaeth genedlaethol



Grŵp ethnig


Gwyn
70.4%
79.1%
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig
1.4%
1.9%
Cymysg/nifer o grwpiau ethnig
1.4%
0.8%
Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig
0.0%
0.8%
Grŵp ethnig arall
0.0%
0.6%
Ddim am gofnodi grŵp ethnig
2.8%
1.3%
Anhysbys
23.9%
15.5%
Achosion PiY
Gweithlu cofrestredig

Y Gymraeg
Pan fydd ymarferwyr yn gwneud cais i ymuno â Chofrestr CGA, gofynnir iddynt gadarnhau a ydynt yn gallu siarad Cymraeg ai peidio. Mae 'gallu' yn golygu eu bod yn rhugl neu'n weddol rugl yn yr iaith.

Hefyd, gofynnir iddynt gadarnhau a ydynt yn darparu ar hyn o bryd, neu'n gallu darparu, addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y ddau achos, mae'r ymatebion wedi'u seilio ar 'hunanddatgan'.

Siarad Cymraeg



Gallu darparu addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg



8. Asesu addasrwydd i gofrestru

Gofynnir i ddarpar gofrestreion ateb nifer o gwestiynau yn ymwneud â'u hanes blaenorol wrth wneud cais am gofrestru gyda CGA. Os yw ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol i unrhyw gwestiwn yn y datganiad hwn, caiff ei gais ei asesu gan y Tîm Priodoldeb i Ymarfer.

Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am ddangos ei addasrwydd i gofrestru gyda ni.

Asesiad addasrwydd
Cam 1: Mae swyddogion o'r farn bod y datganiad a wnaed yn gymharol ddibwys ac ni fyddai'n effeithio ar addasrwydd yr ymgeisydd i gofrestru; caniateir cofrestru.

Cam 2: Gofynnir i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth fanylach am amgylchiadau ei ddatganiad a thystlythyrau/sylwadau i gefnogi ei addasrwydd i gofrestru. Os yw swyddogion yn fodlon gydag ymateb yr ymgeisydd, caniateir cofrestru.

Cam 3: Mae swyddogion yn penderfynu atgyfeirio'r cais i Bwyllgor Addasrwydd graffu arno'n annibynnol mewn cyfarfod preifat. Mae'r atgyfeiriadau hyn yn ymwneud â datganiadau lle nad yw Swyddogion yn fodlon caniatáu cofrestru ar Gam 2.

Cyfarfod addasrwydd
Mae'r cyfarfod addasrwydd yn breifat ac yn gyfle i'r ymgeisydd esbonio wrth y Pwyllgor pam y mae o'r farn ei fod yn addas i'w gofrestru gyda ni.

Mae'r Pwyllgor Addasrwydd yn cynnwys o leiaf dri aelod panel, gan gynnwys o leiaf un aelod o'r categori cofrestreion sy'n briodol i'r ymgeisydd, ac un person lleyg. Caiff y Pwyllgor ei gefnogi gan ymgynghorydd cyfreithiol annibynnol.

Ar ôl clywed gan yr ymgeisydd, mae'r Pwyllgor yn ymneilltuo i ystyried, yn breifat, p'un a ddylai ganiatáu cofrestru neu beidio. Os na chaniateir cofrestru, ni chaiff yr ymgeisydd wneud unrhyw gais pellach yn yr un categori/categorïau cofrestru am 12 mis pellach, ac wedi hynny caiff ailymgeisio i gofrestru.

8.1 Nifer yr asesiadau addasrwydd yn dilyn gwneud datganiad gan ymgeisydd, yn ôl grŵp cofrestreion, ac yn ôl blwyddyn

Grŵp Cofrestreion	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion	119	84	80	86	96
Athrawon ysgol	27	30	33	30	24
Athrawon addysg bellach	23	21	16	20	12
Gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach	9	6	5	6	7
Ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith	23	24	14	9	13
Gweithwyr ieuenctid	3	3	0	0	1
Gweithwyr cymorth ieuenctid	6	7	6	3	0
Sawl categori cofrestru	69	40	27	29	33
Cyfanswm	**279**	**215**	**181**	**183**	**186**

8.2 Deilliannau asesiadau addasrwydd yn dilyn gwneud datganiad, yn ôl blwyddyn

Deilliannau	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23
Caniatawyd y cais (cam 1/2)	221 (79.2%)	167 (77.7%)	143 (79.0%)	149 (81.4%)	159 (85.5%)
Caniatawyd y cais (cam 3)	14 (5.0%)	8 (3.7%)	2 (1.1%)	10 (5.5%)	4 (2.2%)
Gwrthodwyd y cais (cam 3)	3 (1.1%)	4 (1.9%)	1 (0.6%)	2 (1.1%)	4 (2.2%)
Tynnwyd y cais yn ôl/caewyd y cais	41 (14.7%)	36 (16.7%)	35 (19.3%)	22 (12.0%)	19 (10.1%)
Cyfanswm	**279**	**215**	**181**	**183**	**186**

Noder: Gall CGA a'r ymgeisydd ill dau dynnu ceisiadau yn ôl/gau ceisiadau. Er enghraifft, os bydd ymgeisydd yn methu ymateb i ymholiadau am y datganiad a wnaeth, gallem roi'r gorau i'n hasesiad. Hefyd, gall ymgeisydd benderfynu tynnu ei gais yn ôl ar unrhyw adeg yn ystod y broses asesu.

8.3 Math o ddatganiad a wnaed – ymgeiswyr i gofrestru lle gwnaed datganiad – asesiadau a gwblhawyd 2022-23

Datganiadau 2022-23



Mae **'Arall'** yn cynnwys:

- Gweithredu blaenorol neu weithredu yn yr arfaeth gan gyflogwr neu gorff rheoleiddio arall
- Methiant i ddatgan gwybodaeth
- Gwneud datganiad nad oedd yn bodloni'r trothwy ar gyfer datgelu

8.4 Demograffeg ymgeiswyr i gofrestru yn 2022-2023

Rhywedd



Oedran



Hunaniaeth genedlaethol



Grŵp ethnig



9. At y dyfodol yn 2023-24

- Pan ddaw Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023 i rym ym mis Mai 2023, bydd ymarferwyr addysg yn y sector annibynnol a rhai rolau ychwanegol yn y sector ieuenctid yn cael eu rheoleiddio. Yna, bydd CGA yn rheoleiddio 11 o wahanol gategorïau cofrestru yn y gweithlu addysg.

- Byddwn yn cwblhau adolygiad o'r holl ganllawiau arfer da a gyhoeddwyd ar ein gwefan, gan eu diweddaru pan fydd angen a'u lledaenu'n gyhoeddus.

- Byddwn yn recriwtio aelodau panel lleyg ychwanegol er mwyn cynnal nifer sy'n caniatáu ar gyfer gweinyddu ein gwaith achos yn effeithiol.

- Byddwn yn parhau i weithio ar ddatblygu ystod o ddeunyddiau ac adnoddau ar-lein, gan gynnwys nifer o fideos sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am y maes hwn o'n gwaith ac i gynorthwyo a chefnogi pawb sy'n ymwneud â gwaith achos.

- Byddwn yn datblygu proses adolygu ar gyfer aelodau'r panel priodoldeb i ymarfer a fydd yn cynnwys gwaith ymchwil helaeth i'r prosesau a ddefnyddir gan reoleiddwyr eraill.

- Gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn ystod y pandemig Covid-19. Mae swyddogion yn parhau i fonitro niferoedd yn ofalus, gan ddisgwyl cynnydd posibl mewn atgyfeiriadau yn 2023-24 wrth i gyflogwyr a thribiwnlysoedd cyflogaeth derfynu materion a oedd yn weddill o'r cyfnod Covid-19.

- O ganlyniad i'r newid llwyddiannus i gynnal cyfarfodydd a gwrandawiadau rhithwir yn ystod y pandemig, bydd mwyafrif ein gwaith achos priodoldeb i ymarfer yn parhau i gael ei gynnal yn rhithwir. Fodd bynnag, yn unol ag ymagwedd llawer o reoleiddwyr eraill, bydd cofrestreion yn gallu gofyn am wrandawiad 'wyneb yn wyneb' os byddant hwy a/neu eu cynrychiolwyr yn mynychu'n 'bersonol'.

- Bydd Swyddogion CGA yn parhau i gyflwyno hyfforddiant i ystod o wahanol gynulleidfaoedd (cwblhawyd 58 o sesiynau yn 2022-23) – cofrestreion presennol a darpar gofrestreion, cyflogwyr, asiantau a rhanddeiliaid allweddol eraill – am y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol.

- Bydd contract gwasanaethau cyfreithiol CGA sy'n darparu'r ymgynghorydd cyfreithiol i gefnogi'r pwyllgorau priodoldeb i ymarfer yn dod i ben ar ddiwedd mis Medi, felly bydd proses caffael agored ar gyfer contract newydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn.

Cedwir pob hawl © Cyngor y Gweithlu Addysg 2023